**DYDDIEDIG XX XXXX 202-**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# A5119 A RAIKES LANE, YR WYDDGRUG
# (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD)
# --
# (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (GWELLIANT 7) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X

**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**A5119 A RAIKES LANE, YR WYDDGRUG**

**(FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 7) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar xx xx 202- a gellir cyfeirio ato fel (GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT A5119 A RAIKES LANE, YR WYDDGRUG. (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (DIWYGIAD RHIF 7) 202-

**Darpariaethau Cyffredinol**

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd y darnau o ffyrdd a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn bellach yn Ffyrdd Cyfyngedig at ddibenion Adran 81 Ddeddf 1984.

5. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Mae Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (A5119 Rhyd Y Galed i Heol y Brenin, Yr Wyddgrug) (Ffordd Gyfyngedig) (Dirymu) 2015, wedi'i ddirymu yn ei gyfanrwydd ac mae wedi cael ei gydgrynhoi i mewn i'r Gorchymyn hwn.

7. Mewn grym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Atodlen Map J12 a J13 Rhif Taflen Ddiwygiedig: 2 sydd wedi ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn, yn disodli Atodlen Map J12 a J13, Rhif Taflen Ddiwygiedig 1, yng Ngorchymyn (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r terfynau cyflymder cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) Cyngor Sir y Fflint 2023, mewn perthynas â'r ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**30 MYA**
**A5119 a Raikes Lane**

| **Enw'r Ffordd** | **Atodlen Map** | **Taflen i'w diwygio** |
|---|---|---|
| A5119 | J12<br>J13 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023)<br>2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |
| Rakes Lane | | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023)<br>2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** **)**
yn y fan hon )
y XX diwrnod o XXXXXXX 202- )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

**UWCH GYFREITHIWR**